# Cwestiynau i Ymgeiswyr y Cynulliad - Addysg Gymraeg i Bawb

## Nodyn Briffio Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Annwyl Gefnogwr,

Hoffem eich annog i holi'r ymgeiswyr Cynulliad yn eich ardal chi am y mater hwn yn ystod y cyfnod sy'n arwain at etholiadau'r Cynulliad. Derbyniwn y bydd y materion pwysicaf sy'n effeithio ar y Gymraeg yn amrwyio o ardal i ardal, felly cyhoeddwn ddogfennau briffio ar bynciau eraill yn fuan.

**1.Addysg Gymraeg i Bawb**

**1.1. Cefndir:**

Fe gyhoeddwyd canlyniadau Cyfrifiad 2011 am y Gymraeg ar Ragfyr 11 2012 ac Ionawr 30 2013 - roedd 562,000 (19.01%) o bobl yng Nghymru dros 3 oed yn siarad Cymraeg yn 2011 o'i gymharu â 582,368 (20.76%) yn 2001.

Ym mis Medi 2013, cyhoeddodd yr Athro Sioned Davies adroddiad, a gafodd ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru, am sefyllfa'r Gymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Dywedodd yr adroddiad:

> "*Ni ellir gwadu ei bod yn unfed awr ar ddeg ar Gymraeg ail iaith. … mae lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn is nag mewn unrhyw bwnc arall. Petai hyn wedi cael ei ddweud am Fathemateg, neu am y Saesneg, diau y byddem wedi cael chwyldro … Os ydym o ddifrif ynglŷn â datblygu siaradwyr Cymraeg a gweld yr iaith yn ffynnu, rhaid newid cyfeiriad, a hynny fel mater o frys cyn ei bod yn rhy hwyr.*"

Argymhellodd yr adroddiad ddisodli Cymraeg ail Iaith gyda chontinwwm lle byddai pob disgybl yng Nghymru'n derbyn cyfran o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg, gan argymell:

> "…*defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol ar gyfer Cymraeg fel sylfaen ar gyfer cwricwlwm diwygiedig gan gynnwys un continwwm o ddysgu Cymraeg, ynghyd â disgwyliadau clir ar gyfer disgyblion sy'n dysgu Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a lleoliadau dwyieithog … O ganlyniad byddai'r elfen Cymraeg ail iaith yn y rhaglen astudio Cymraeg yn cael ei disodli ynghyd â'r term Cymraeg ail iaith.*"
>
> "… *ehangu defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg; a gosod targedau i sicrhau mwy o ddysgu cyfrwng Cymraeg ar draws y cwricwlwm mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.*"

Yn ôl canlyniadau arolwg barn YouGov a gafodd ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2014, mae mwyafrif clir o bobl Cymru eisiau gweld cwricwlwm addysg sy'n sicrhau bod pob disgybl yn gadael yr ysgol gyda'r gallu i gyfathrebu'n Gymraeg yn effeithiol. Roedd 63% o'r bobl a holwyd yn yr arolwg yn cytuno y "dylid dysgu pob disgybl i gyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg", gyda dim ond 37% yn anghytuno.

**Cyrhaeddiad Addysg - Y Sefyllfa Bresennol**

Mae **78%** o'n plant 7 mlwydd oed ddim yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg

**-0.2%** fu'r cwymp yng nghanran y plant 7 mlwydd oed sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg rhwng 2013-14 a 2014-15

**0.1%** fu'r twf blynyddol yng nghanran y plant 7 mlwydd oed sy'n derbyn addysg Cymraeg ers 2011

‘*Dim ond mewn rhyw un ysgol ymhob 10 y mae disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog wrth gaffael sgiliau Cymraeg ail iaith.’* - Adroddiad Robert Hill, Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol, Mehefin 2013

**83%** o bobl ifanc DDIM yn cael eu hasesu fel Cymraeg iaith gyntaf ym Mlwyddyn 9 (14 mlwydd oed)

Dim ond **15.4%** o'n plant a gafodd eu cofrestru ar gyfer y cwrs TGAU iaith gyntaf yn 2012

**-25%** yw'r cwymp yn nifer y plant sy'n sefyll arholiad Cymraeg safon uwch rhwng 2009 a 2014 (iaith gyntaf ac ail iaith)

**Cwestiynau posib i'w holi i ymgeiswyr Cynulliad**

- Ydych chi'n derbyn y dylai pob disgybl - pa ysgol bynnag y maen nhw'n ei mynychu - gadael yr ysgol gyda'r gallu i gyfathrebu a gweithio drwy'r Gymraeg?
- Dyw 83% o'n plant ddim yn cael ei asesu fel rhai sydd gyda Chymraeg sy'n ddigon da i'w gyfrif fel 'Cymraeg iaith gyntaf', beth ydych chi'n mynd i wneud i wella'r sefyllfa?
- Ydych chi'n cytuno gydag argymhellion yr Athro Sioned Davies y dylai fod addysg cyfrwng Cymraeg i bob un disgybl yng Nghymru?
- Ydych chi'n derbyn prif argymhellion yr Athro Sioned Davies y dylid dileu Cymraeg ail iaith, a sefydlu yn lle peth addysg cyfrwng Cymraeg i bob disgybl ac un continwwm dysgu'r Gymraeg?

Rhagfyr 2015